# CYNGOR CYMUNED LLANDDANIEL FAB

**Cyfarfod y Cyngor: Dydd Llun, 15 Chwefror 2021, Arlein dros Zoom**

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

**Presennol:** Martin Kelly-Roberts (Cadair), Andy Wagstaff, Margaret Clarke, Brian FitzGerald, Tracey Owens,

**Ymddiheuriadau:** Y Cyngh. Eric Jones, y Cyngh. Dafydd Roberts

Joanna Robertson wedi dod i arsyllu yn y cyfarfod.

## 2. Materion yn Codi

Derbyn y cofnodion gan Brian FitzGerald, eilio gan Margaret Clarke.

Item 7 – contractwyr yn cael problem yn cael defnyddiau felly methu ffensio ar hyn o bryd.
Cae Chwarae – Tracey wedi bod yna ac wedi rhoi tâp ar y darnau sydd wedi pydru.

## 3. Datgan Diddordeb

Margaret Clarke – cynllunio, Rhandir Mwyn.

## 4. Uwch Swyddog Morwrol Iwan Jones

Cadeirydd Felinheli. Yn wreiddiol wedi gofyn am gyfarfod mewn ymateb i bryderon am ddefnydd o'r Fenai ar yr ochr yna – cychod yn lansio o Moel y Don (ac nid Plas Coch yn unig). Hefyd problem llygredd, pobl yn parcio ar y blaen traeth.
Posibilrwydd o Bartneriaeth Goriadau. Rheoli mynediad: postyn/bolard/giât gyda chlo. 6 clo a 30 goriad i'r clerc, a ffi am gael goriad. Cychod yn gorfod cael eu cofrestru gyntaf, y Cyngor yn gwneud hyn. Cyngor Sir yn gyfrifol am ddelio efo'r cloeau ayb mewn achosion fandaliaeth. Rhoi'r goriadau yn mynd trwy'r Clerc.
Disgownts i bobol leol? Trafod fel posibilrwydd, a'r teimlad oedd y byddai hyn yn rhywbeth y dylid ei gynnig.
Pawb yn cytuno – symud ymlaen efo hwn a dechrau'r broses.
Hysbysebu ymlaen llaw i ddweud bod y bolard yn cael ei godi ac y bydd goriadau ar gael.

## 5. Materion Ariannol

Gwariant – Swyddfa Archwilio Cymru, bil llynedd £341.90. Heb ei dalu, ddim ar y cyfrifon.

Cynllun Strategol Ariannol
Mwy addas ar gyfer y Pwyllgor Cyllid. Angen cynllun 12 mis am rŵan, gydag etholiadau ymhen blwyddyn. Pwysig i gyfathrebu efo'r cyhoedd.
Penderfyniad: pawb i ebostio syniadau a'r Pwyllgor Cyllid i drafod hyn a llunio cynllun. CYTUNO
Trafod diogelwch ffyrdd.

Costau Swyddfa'r Clerc
Gosod swm blynyddol yn hytrach na chodi bob mis ac wedyn cadw derbynebau. CYTUNO.
Ychwanegu hwn i'r cyfarfod Pwyllgor Cyllid.

## 6. Cynllunio

HHP/2021/26 Rhandir Mwyn, Llanddaniel. Pryder am gais nes ymlaen i newid defnydd. Nodi hyn. Out of the Building area. DERBYN ond nodi pryderon. Angen gweld lleoliad.
LUE/2021/2 Bwthyn Gwynion 20 Parc Eurach. Newid yr eiddo i annedd preswyl parhaol. Anodd. Dylai hwn fod yn annedd fforddiadwy. Beth sydd yn digwydd yma yn anghywir, ac mae angen i Ynys Môn egluro eu hunain. Pobl leol eisiau tai ond methu fforddio'r rhain. Annheg, a cholled refeniw i'r Cyngor. Pobol leol yn ariannu hyn. LLYTHYR I WRTHWYNEBU. A chais am sgwrs gyda'r Uwch Swyddog Cynllunio.

## 7. Llythyrau i'w trafod

- Cod Ymddygiad: edrych dros hwn ac adrodd yn ôl.

## 8. Baw Ci – Strategaeth

Wedi cytuno i gael prisiau ar gyfer dosbarthwyr bagiau. Grant ar gael. Cais wedi ei wneud am dri.
Stensil ar y lôn: ddim yn cymryd archebion ar gyfer rhai dwyieithog felly cael un dim iaith. Posib cael label ar gyfer bin y fynwent.

## 9. Asesiad Risg

Wedi ei wneud gan Andy Wagstaff. Meinciau yn broblem – yr un yn y Fynwent wedi dirywio. Cynnig gan Richard Clarke i drwsio'r fainc – DERBYN. AW i chwilio am brisiau hefyd.
Moel y Don – dwy fainc yn y rhestr asedau ond tair yna, gan gynnwys bwrdd picnic.
Meinciau ychwanegol wedi ymddangos yn y fynwent. Rhain yn goed ac yn debygol o ddirywio. Ansicr pwy sydd yn gyfrifol am y rhain. Angen ystyried hyn rhag ofn i rhywun ofyn eto.
Arhosfan bws – seddi wedi plygu. Edrych am grant Comisiynydd Heddlu?

## 10. Goleuadau Nadolig: ffordd ymlaen

Edrych ar y costau a chynllunio ymlaen llaw. Ystyried ar gyfer flwyddyn nesa. Ein goleuadau ein hunain yn hytrach na hurio – costus? Ystyried goleuadau ar bolion lamp. Plannu coeden gymunedol – chwilio am gyflenwr, a phrisiau am oleuadau ar y Green. Cysylltu efo Barry Jones ynghylch y Green.

## 11. Polisi Cerrig Beddi

Unrhyw gyfyngiadau ar y math o gerrig beddi mae modd eu cael: ymylon. Dim cyfyngiadau yn y Gweithredoedd. Y Cofrestr yn nodi pan *nad oes* ymylon, felly y posibilrwydd o gael rhai yno? Cael ymylon yn ei gwneud cynnal a chadw'n fwy anodd?

## 12. Adroddiad o unrhyw gyfarfodydd

Llywodraethwyr. Canolbwyntio ar addysgu o adref, a'r ysgol yn arwain y ffordd efo iaith ar gyfer rhieni di-Gymraeg. Paratoi ar gyfer dychweliad y babanod i'r ysgol.

## 13. Adroddiad gan y Cynghorwyr Sirol

Dim cynghorydd yn bresennol.

Arwyddwyd : [signature] Dyddiad : 15/3/21